# Golygyddol – Newid Addysgol yng Nghymru: Y Cwricwlwm, Capasiti a Senedd nesaf Cymru

Tom Crick[1], Enlli Thomas[2] a Gary Beauchamp[3]
[1]Prifysgol Bryste (tom.crick@bristol.ac.uk)
[2]Prifysgol Bangor (enlli.thomas@bangor.ac.uk)
[3]Prifysgol Metropolitan Caerdydd (gbeauchamp@cardiffmet.ac.uk)

Wrth i'r rhifyn hwn o *Gylchgrawn Addysg Cymru* gael ei gyhoeddi ym mis Mai 2026, mae Senedd Cymru newydd yn dechrau ar ei thymor seneddol, gyda diwygiadau addysgol mawr yn parhau i gael eu gweithredu. Mae'r gwaith o weithredu'n raddol y Cwricwlwm i Gymru yn parhau ar draws pob grŵp blwyddyn. Mae'r system Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yn ymwreiddio dyletswyddau statudol newydd. Mae Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025 yn cyflwyno gofynion statudol newydd sy'n ymwneud â darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog, gan gynnwys disgwyliadau gofynnol ar gyfer addysg Gymraeg ar draws y system. Mae deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol yn datblygu ar draws pob lleoliad a chyd-destun addysgol. Mae sefydliadau addysg uwch yn wynebu cyfyngiadau ariannol parhaus. Mae'r tymor seneddol newydd yn dechrau felly gydag elfennau diwygio addysgol sylweddol yn parhau ar y gweill, a hynny mewn cyd-destun o gyfyngiadau o ran cyllid ac o ran y gweithlu. Ar draws y datblygiadau hyn, mae'r rhifyn hwn yn amlygu cwestiwn canolog: sut y gall y system addysg gynnal cydlyniad, tegwch a phwrpas proffesiynol yng nghanol newid parhaus? Mae'r cwestiwn hwnnw yn ymwneud â chapasiti yn y pen draw.

Dros y degawd diwethaf, mae Cymru wedi mynegi diwygiadau uchelgeisiol fel rhan o 'genhadaeth ein cenedl' o ran cynllunio'r cwricwlwm, darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog, cymhwysedd digidol, darpariaeth ADY a thrawsnewid addysg ôl-16 (Llywodraeth Cymru, 2023; Llywodraeth Cymru, 2025). Ond nid yw uchelgais yn unig yn ddigon. Gall diwygio ddim ond digwydd pan fo capasiti

*https://doi.org/10.16922/wje.28.1.1cym*

proffesiynol, gan gynnwys arbenigedd ac arweinyddiaeth athrawon; capasiti sefydliadol, yn cynnwys llywodraethiant, seilwaith a chydlyniad polisi; ynghyd â chapasiti ariannol, gan gynnwys cyllid cynaliadwy ar draws ysgolion a phrifysgolion, oll yn cyd-fynd law yn llaw â'i gilydd. Mae hyn yn adlewyrchu ysgolheictod ehangach wrth ddiwygio a gweithredu ar lefel systemau (Fullan a Quinn, 2016). Wrth i Senedd nesaf Cymru ddechrau ar ei thymor, daw trosi dyhead yn ymarfer parhaus yn fater o bwys uniongyrchol ac ymarferol (Davies a Beauchamp, 2024).

Mae golygyddion diweddar Cylchgrawn Addysg Cymru wedi ceisio helpu i ddiffinio a fframio dadleuon allweddol yn hytrach na dim ond eu disgrifio (Beauchamp et al., 2021), o ddychmygu 'normal newydd' ôl-COVID (Thomas et al., 2023), i fynd i'r afael â newid a diwygio gwleidyddol (Crick et al., 2024), i feithrin arloesedd ym maes ymchwil ac ymarfer (Beauchamp et al., 2025; Thomas et al., 2025). Mae'r rhifyn hwn yn parhau ar y trywydd hwnnw. Mae'n dwyn ynghyd ysgolheictod sy'n cwmpasu datblygiad iaith y blynyddoedd cynnar, polisi deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol, partneriaeth rhwng y cartref a'r ysgol, gweithredu'r cwricwlwm ac addysg foesol ym maes addysg uwch. Gyda'i gilydd, mae'r cyfraniadau hyn yn dangos nad mater o bensaernïaeth polisi yn unig yw diwygio. Caiff ei wireddu trwy grebwyll proffesiynol, ymddiriedaeth berthynol a gallu parhaus systemau.

Mae Jones, Tiesteel a Storey yn agor y mater gydag adolygiad systematig o Anghenion Iaith, Lleferydd a Chyfathrebu ar gyfer plant rhwng pump ac wyth oed yn y cyfnod ar ôl y pandemig. Mae cyffredinrwydd achosion rhyngwladol o Anhwylder Datblygu Iaith yn parhau i fod yn gyson ar y cyfan, ac eto mae'r adolygiad yn nodi absenoldeb nodedig astudiaethau ymyrraeth wedi'u targedu yn dilyn y tarfu a ddigwyddodd adeg COVID-19. Mae'n tynnu sylw at gysylltiadau cryf rhwng Anghenion Iaith, Lleferydd a Chyfathrebu a llesiant cymdeithasol-emosiynol hefyd, gan atgyfnerthu tystiolaeth bod datblygiad iaith cynnar yn sail i gyrhaeddiad a chyfleoedd bywyd tymor hwy. Yng Nghymru, gydag anawsterau Iaith, Lleferydd a Chyfathrebu i gyfrif am y categori mwyaf o ADY (Knight et al., 2024), mae'r canfyddiadau hyn yn hollbwysig; mae'r awduron yn pwysleisio'r angen am ddulliau asesu dwyieithog a safonedig ac ymyriadau integredig sy'n canolbwyntio ar lesiant. Nid rhywbeth ar gyrion diwygio yw cymorth iaith cynnar. Mae'n sylfaenol i degwch addysgol ac i ddyheadau'r Cwricwlwm i Gymru (Conn et al., 2024).

Nesaf, mae Atherton, Karlinger a Castle yn archwilio deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol ym maes addysg yng Nghymru. Gan ddefnyddio data arolwg a'i fframio

trwy'r Model Derbyn Technoleg a'r Ddamcaniaeth Gweithgarwch Diwylliannol-Hanesyddol, mae'r astudiaeth yn nodi gagendor sy'n ehangu fwyfwy rhwng mabwysiadu a pharodrwydd. Er bod arbrofi ar gynnydd, parhau'n anwastad mae fframweithiau polisi, datblygiad proffesiynol a seilwaith technegol. Mae tri phatrwm gweithredu, a ddisgrifir fel dulliau strwythuredig cyfyngol, ad hoc a datblygol, yn dangos bod profiadau dysgwyr yn amrywio. Mae pryderon ynghylch uniondeb asesu, anghydraddoldeb adnoddau a'r goblygiadau i ddysgwyr ag ADY yn amlwg iawn. Gan gyd-fynd ag ymchwil ehangach ar drawsnewid digidol, mae'r papur yn dangos bod integreiddio deallusrwydd artiffisial (AI) yn effeithiol yn dibynnu ar ddysgu proffesiynol parhaus a llywodraethu cydlynol (Dwivedi et al., 2023). Yn nhymor newydd y senedd, bydd yn hanfodol, o'r cychwyn cyntaf, ymwreiddio tegwch ac ystyriaethau moesegol er mwyn mabwysiadu a lledaenu AI yn barhaus, yn enwedig yng nghyd-destun AI annibynnol (Hughes et al., 2025).

Mae'r trydydd papur gan Davies, Waters-Davies ac Underwood yn ailymweld â'r pandemig o safbwynt perthynol, gan archwilio partneriaethau rhwng y cartref a'r ysgol yn ystod y tarfu a gafwyd adeg COVID-19. Yn hytrach na chanolbwyntio ar y dysgu a gollwyd yn unig, mae'r awduron yn dadansoddi sut y cafodd ymgysylltiad rhieni a ffiniau proffesiynol eu hailffurfio. Er bod anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol a digidol yn cyfyngu ar gyfranogiad, daeth mathau newydd o gydweithredu a chyd-ddealltwriaeth i'r amlwg. Mae tystiolaeth hirsefydlog yn cysylltu ymgysylltiad rhieni â deilliannau dysgwyr, ac mae'r canfyddiadau hyn yn parhau i fod yn berthnasol. Mae'r Cwricwlwm i Gymru yn lleoli dysgwyr mewn teuluoedd a chymunedau; mae partneriaethau ystyrlon felly yn rhan annatod o ddiwygio (Goodall, 2022). Mae'r papur yn gwahodd darllenwyr i fyfyrio ar sut y gellid ymwreiddio buddion perthynol y cyfnod hwn yn fwy systematig yn y dyfodol.

Mae Gatley ac Oostendorp-Godfrey yn archwilio'r broses o weithredu'r Cwricwlwm i Gymru o safbwynt athronyddol unigryw. Gan bwyso ar gyfweliadau ag athrawon uwchradd, maent yn dadlau bod cwricwlwm a arweinir gan ddibenion yn amlygu gwerthoedd addysgol ac yn ei gwneud yn ofynnol i ymarferwyr lywio cyfaddawdau cymhleth rhwng ymrwymiadau sy'n cystadlu â'i gilydd. Mynegodd cyfranogwyr gefnogaeth gref i bedwar diben y cwricwlwm (Llywodraeth Cymru, 2022), ond roedd y gwerthoedd a flaenoriaethwyd ganddynt yn wahanol a nodwyd tensiynau rhwng y dibenion hynny a phwysau allanol, gan gynnwys cymwysterau, trefniadau atebolrwydd a disgwyliadau cymunedol. Awgryma'r awduron nad yw'r her yn ymwneud ag arweiniad neu lwyth gwaith yn unig, ond yn hytrach â'r gallu i

drafod hefyd. Gofynnir i athrawon ddehongli a gweithredu fframwaith a arweinir gan werthoedd heb fod ganddynt bob amser yr adnoddau cysyniadol neu'r gofodau strwythuredig i ymgymryd â thrafodaethau moesegol parhaus. Mewn ymateb, mae'r papur yn cynnig adnoddau athronyddol, gan gynnwys fframweithiau nwyddau addysgol, astudiaethau achos normadol ac ymagweddau athroniaeth i athrawon, fel cymorth posibl ar gyfer cynnal uniondeb y cwricwlwm a arweinir gan ddibenion. Mae newidiadau i'r cwricwlwm, yn hyn o beth, yn normadol a diwylliannol yn ogystal â strwythurol.

Yn olaf, mae Allen-Walker a Williams yn ymestyn y drafodaeth i addysg uwch, gan archwilio sut y mae staff yn llunio hunaniaethau proffesiynol trwy addysg foesol mewn rhaglenni gradd cymunedol. Gan gyfeirio at drosiad Schön (1983) o iseldiroedd corsiog amwys ymarfer, mae'r awduron yn archwilio sut y mae ymarferwyr yn symud y tu hwnt i godau proffesiynol ffurfiol i drafod amwysedd moesegol mewn cyd-destun. Mae eu dadansoddiad yn tynnu sylw at bwysigrwydd mannau myfyrio, deialogaidd, fel ffordd o alluogi staff a myfyrwyr i lywio'r cymhlethdod moesol sy'n rhan gynhenid o'u bywydau proffesiynol. Wrth wneud hynny, mae'r papur yn ehangu'r drafodaeth am ddibenion a gwerthoedd y cwricwlwm i faes ffurfio hunaniaeth broffesiynol.

Ar draws y pum cyfraniad hyn, daw darlun cydlynol i'r fei. Mae newid addysgol yn cael ei ddylanwadu gan anghydraddoldebau parhaus ar draws meysydd ieithyddol, digidol ac economaidd-gymdeithasol. Mae'n dibynnu ar arbenigedd proffesiynol a dysgu parhaus. Mae'n gofyn am gydlyniant o ran llywodraethu mewn cyfnodau o drawsnewid technolegol a systemig. Yn anad dim, mae'n berthynol; wedi'i weithredu trwy ymddiriedaeth, partneriaeth a thrafodaeth. Yr her yw nid yn unig cychwyn y diwygio ond ei gynnal hefyd.

Mae etholiadau'r Senedd ar 7 Mai 2026 wedi penderfynu ar gyfansoddiad Senedd nesaf Cymru ac wedi sefydlu'r cyd-destun sefydliadol ar gyfer polisi addysgol yn y tymor seneddol sydd i ddod. Bydd ffurfio Llywodraeth newydd i Gymru a phenodi gweinidogion, cynghorwyr a chadeiryddion pwyllgorau craffu yn fframio penderfyniadau ynghylch amserlenni'r cwricwlwm, adnoddau ar gyfer ADY, strategaeth ddigidol a chyllid gynaliadwy ar gyfer addysg uwch. Mae Senedd nesaf Cymru yn etifeddu system sy'n dal i roi diwygiadau mawr ar waith: Cwricwlwm i Gymru wedi'i ymwreiddio ar draws cyfnodau, fframwaith ADY sy'n aeddfedu wrth ei ymarfer, ehangu parhaus darpariaeth Gymraeg a dwyieithog gyda'r nod o ddatblygu siaradwyr dwyieithog hyderus a pharod, cyflymu'r broses o fabwysiadu ac

integreiddio AI ochr yn ochr â mathau datblygol o amharodrwydd a gwrthwynebiad i ddefnyddio AI, a phrifysgolion sy'n gweithredu o dan amodau cyllidol heriol. Y cwestiwn canolog yw sut y gellir cynnal cydlyniant a thegwch wrth i'r diwygiadau hyn aeddfedu.

I ymchwilwyr, ymarferwyr a llunwyr polisi fel ei gilydd, y cyfrifoldeb erbyn hyn yw sicrhau bod tystiolaeth a mewnwelediad proffesiynol yn llywio cyd-drafodaethau yn y cylch seneddol hwn. Fel y mae erthyglau golygyddol blaenorol Cylchgrawn Addysg Cymru wedi dadlau (Crick et al., 2024; Thomas et al., 2025), er mwyn diwygio mae angen sicrhau cydbwysedd rhwng arloesedd a sefydlogrwydd, rhwng dyhead â realaeth sefydliadol. Mae'r rhifyn hwn yn cyfrannu at y drafodaeth honno: o ddatblygiad iaith cynnar i lywodraethu AI, o weithredu'r cwricwlwm i broffesiynoldeb moesol, nid yw'r gwaith a nodir yma yn rhagnodi polisi. Mae'n cynnig dadansoddiad sy'n seiliedig ar dystiolaeth gyda'r bwriad o gefnogi barn ofalus yn Senedd nesaf Cymru a thu hwnt.

Gellir deall yr her ar gyfer y tymor seneddol newydd hwn orau fel un o stiwardiaeth: cynnal cydlyniant y cwricwlwm, cryfhau gallu proffesiynol a sefydliadol, a hyrwyddo cydraddoldeb addysgol yng nghyd-destun unigryw datganoli Cymru. Mae'r cyfraniadau yn y cyhoeddiad hwn yn cael eu cynnig yn yr ysbryd hwnnw, fel adnoddau ar gyfer myfyrio yn feirniadol a thrafodaethau gwybodus.

## Cyfeiriadau


Beauchamp, G., Crick, T. a Thomas, E. (2021). Golygyddol - Addysg fel cenhadaeth genedlaethol: rôl Cylchgrawn Addysg Cymru, *Cylchgrawn Addysg Cymru,* 23(1). https://journal.uwp.co.uk/wje/article/id/484/

Beauchamp, G., Crick, T. a Thomas, E. (2025). Golygyddol - Meithrin Arloesedd mewn Ymchwil ac Ymarfer Addysgol yng Nghymru, *Cylchgrawn Addysg Cymru, 27(1).* https://journal.uwp.co.uk/wje/article/id/736/

Conn, C., Hicks, M. a Thomas, D. V. (2024). Datblygiadau mewn addysg gynhwysol ac anghenion dysgu ychwanegol yng Nghymru, *Cylchgrawn Addysg Cymru*, 26(2). https://journal.uwp.co.uk/wje/article/id/690/

Crick, T., Beauchamp, G. a Thomas, E. (2024). Golygyddol - Newid Gwleidyddol, Ffocws o'r Newydd ar Ddiwygio a Chyflawni Blaenoriaethau Addysg Cymru, *Cylchgrawn Addysg Cymru,* 26 (1). https://journal.uwp.co.uk/wje/article/id/667/

Davies, A. J. a Beauchamp, G. (2024). Pwy a gyfyd Cymru? By whom shall Wales be raised?' Chwarter canrif o bolisi addysg datganoledig yng Nghymru, *Cylchgrawn Addysg Cymru*, 26(2). https://journal.uwp.co.uk/wje/article/id/677/

Dwivedi, Y. K., et al. (2023). 'So what if ChatGPT wrote it?' Multidisciplinary perspectives on opportunities, challenges and implications of generative conversational AI for research, practice and policy, *International Journal of Information Management*, 71, 102642. https://doi.org/10.1016/j.watres.2023.102642

Fullan, M., a Quinn, J. (2016). Coherence: The right drivers in action for schools, districts, and systems. Corwin Press.

Goodall, J. (2022). Fframwaith ar gyfer ymgysylltiad teuluoedd: Mynd y tu hwnt i Fframwaith Epstein, *Cylchgrawn Addysg Cymru*, 24(2). https://journal.uwp.co.uk/wje/article/id/585/

Hughes, L., et al. (2025). AI Agents and Agentic Systems: A Multi-Expert Analysis, *Journal of Computer Information Systems*, 65(4), 489–517. https://doi.org/10.1080/08874417.2025.2483832

Knight, C., Lowthian, E., Crick, T., Jones, C., Rawlings, A., Abbasizanjani, H. a Rees, S. (2024). Sociodemographic trends in special educational needs identification in Wales, *British Educational Research Journal*, 51(1), 466–87. https://doi.org/10.1002/.4083

Llywodraeth Cymru (2022). Datblygu gweledigaeth ar gyfer cynllunio cwricwlwm. Ar gael yn: https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/cynllunio-eich-cwricwlwm/datblygu-gweledigaeth-ar-gyfer-cynllunio-cwricwlwm

Llywodraeth Cymru (2023). Cenhadaeth ein Cenedl: safonau a dyheadau uchel i bawb. Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/cenhadaeth-ein-cenedl-safonau-dyheadau-uchel-i-bawb-html

Llywodraeth Cymru (2025). Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025. Ar gael yn: https://cyfraith.llyw.cymru/deddf-y-gymraeg-ac-addysg-cymru-2025

Schön, D. A. (1983). The reflective practitioner: How professionals think in action. Basic Books.

Thomas, E., Beauchamp, G. a Crick, T. (2025). Golygyddol – Ehangu Gorwelion ar gyfer Ymchwil, Polisi ac Ymarfer Addysgol yng Nghymru. *Cylchgrawn Addysg Cymru,* 27(2). https://journal.uwp.co.uk/wje/article/id/809/

Thomas, E., Crick, T. a Beauchamp, G. (2023). Golygyddol — Rhagweld y 'Normal Newydd' Ôl-COVID ar gyfer Addysg yng Nghymru, *Cylchgrawn Addysg Cymru*, 25(2). https://journal.uwp.co.uk/wje/article/id/625/